

# Diwrnod yn Llundain

Roderick Hunt
Alex Brychta

Pïod

DRAKE





Daeth Nain i aros.

Rhedodd y plant i gwrdd â hi.

"Hwrê!" meddai Onw. "Rwy wrth fy modd pan ddaw Nain i aros.

Mae hi'n hwyl!"




Daeth Nain ag anrhegion i bawb.
Rhoddodd ornament i Mam a Dad.
Cafodd Onw ffyn golff bach a
chafodd Cad a Dids allweddellau.
"Diolch, Nain," meddai pawb.





"Mae gen i syrpreis arall ichi," meddai Nain.
Rhoddodd barseli â siapiau rhyfedd
i'r plant.
"Beth ydyn nhw?" gofynnodd Onw.
"Bwmerangau," meddai Nain.



Roedd y plant eisiau gweld
sut roedd y bwmerangau'n gweithio.
Aeth Nain â nhw allan.
Taflodd hi fwmerang a
chwyrlïodd e drwy'r awyr.
"Gwyliwch!" galwodd Nain.





Roedd Onw eisiau chwarae â'r ffyn golff.
Dangosodd Nain iddo beth i'w wneud.
Trawodd y bêl, ond trawodd hi'n rhy galed
a chwalodd ffenestr.
"O diar," meddai Nain.



Drannoeth, daeth Wilff, Wilma, Nadim
ac Anneena i chwarae.
Dangosodd Cad a Dids yr allweddellau iddyn nhw.
Cafodd Nain syniad da.
"Beth am gael band?" meddai.




Gwnaeth y band lawer o sŵn
a chafodd y plant amser da.
"Beth wnaiff Nain nesaf?" meddai Dad.
"Mae'n waeth na'r plant," meddai Mam.



Roedd Nain wedi addo mynd
â'r plant ar wibdaith.
Dywedodd y gallai Nadim ac Anneena
ddod hefyd.
"A i â chi i gyd i Lundain," meddai.



"Gofalwch am Nain," meddai Mam
wrth iddyn nhw fynd i'r car.
"Ceisiwch beidio â gadael iddi fynd i helynt."
"Gwnawn ni'n gorau," meddai Cad,
"ond fydd hi ddim yn hawdd."



Pan gyrhaeddon nhw Lundain,
parciodd Nain y car.
"Awn ni ar y tiwb nawr," meddai Nain.
"Dyna'r ffordd orau i deithio."





Roedd llawer o bobl yn aros
ar y platfform.
Pan ddaeth y trên, rhuthrodd pawb arno.
"Mae'n cael ei alw'n diwb," meddai Anneena,
"achos mae pawb yn cael ei wasgu!"




Aethon nhw i Sgwâr Trafalgar.
Roedd cerflun o Nelson ar ben colofn.
"Hoffwn i ddim bod i fyny fan'na," meddai Cad.
"Dydw i ddim yn hoffi uchder."






Roedd llawer o golomennod yn Sgwâr Trafalgar.
Prynodd Nain gnau.
Bwydodd y plant y colomennod.
"O help!" meddai Nadim. "Wyddwn i ddim bod colomennod mor farus."



Aethon nhw at Balas Buckingham.
"Dyma lle mae'r Frenhines yn byw,"
meddai Nain.
"Mae'n enfawr," meddai Anneena.
"Rhaid bod y Frenhines yn brysur
gyda'r holl ystafelloedd yna i'w glanhau."




Gyrrodd car mawr heibio ac
roedd pawb yn chwifio a bloeddio.
Fedrai'r plant ddim gweld pwy
oedd yn y car.
"Efallai mai'r Frenhines yw hi," meddai Cad.




Aeth Nain â nhw ar gwch.
Aethon nhw o dan Bont y Tŵr.
Roedd y plant yn gyffrous achos dechreuodd y bont agor.

Dechreuodd lawio a chwythodd y gwynt.
Teimlai pawb yn oer.
"Na hidiwch," meddai Nain. "Awn ni i le cynnes nesaf."




Aethon nhw i'r arddangosfa gŵyr.
"Beth yw arddangosfa gŵyr?" gofynnodd Onw, wrth iddyn nhw fynd i mewn.
"Mae modelau cwyr o bobl enwog yma," meddai Anneena.





Edrychon nhw ar y modelau.
"Maen nhw'n rhyfedd," meddai Onw.
"Gallwch ddweud mai modelau ydyn nhw, nid pobl go iawn," meddai Anneena.



"Pwy yw'r bobl hyn?" gofynnodd Onw.
"Y Frenhines Victoria yw honna."
meddai Nain, "a rhai o'i hwyrion."
"A'i hwyresau," meddai Nadim.

"Mae golwg chwyrn iawn ar y Frenhines Victoria,"
meddai Cad.
"Mentra i nad oedd hi'n debyg i chi, Nain."
"Wel, hoffwn i ddim bod yn frenhines,"
meddai Nain. "Rhaid ei fod yn waith caled."





Edrychon nhw ar olygfa o stryd.
"Dyma sut le oedd Llundain erstalwm,"
meddai Nain.
"Roedd llawer o'r bobl yn dlawd iawn."

"Doedd plant tlawd ddim yn mynd i'r ysgol.
Roedd rhaid iddyn nhw weithio," meddai Nain.
"Glanhau simneiau mae'r bachgen yna â'r brwsys.
Byddai'n dringo simneiau
a gwthio'r huddygl i lawr."



Aeth Nain i edrych ar y Teulu Brenhinol
tra bod y plant yn aros
wrth yr olygfa stryd.
"Ddylai Nain grwydro
ar ei phen ei hun?" meddai Cad.
"Wnaiff hi fawr o helynt fan yna," meddai Dids.





Gollyngodd Nain ei bag llaw, a rholiodd
darnau o arian ymhlith y modelau.
Aeth Nain i'w codi.
Wrth iddi blygu, trawodd y modelau cwyr a
dechreuon nhw ddisgyn.



Cododd Nain y modelau
a rhoi'r pennau yn ôl.
Fedrai'r plant ddim credu'r peth.
"Nain! Beth rydych chi'n ei wneud?"
gofynnodd Cad.

"Gwnewch rywbeth," meddai Nain.
"Helpwch fi. Codwch y modelau cyn i neb weld."
"O Nain," meddai Cad. "Rwy'n colli golwg arnoch chi
am eiliad, ac mae hyn yn digwydd."




Codon nhw'r modelau a rhoi eu pennau'n ôl.
"Mae golwg ryfedd arnyn nhw," meddai Anneena.
"Dydw i ddim yn meddwl bod y pennau'n iawn."
"O na!" meddai Nain.







Rhedodd gwraig atyn nhw.
Roedd hi'n flin iawn gyda Nain.
"Sut trawoch chi'r modelau drosodd?" gofynnodd.
"Ddigwyddodd hyn erioed o'r blaen."
"Mae'n ddrwg iawn gen i," meddai Nain.




"Dydw i ddim yn credu," meddai Cad,
"y caiff Nain fynd i'r arddangosfa gŵyr eto."
"Dim ots," meddai Dids. "Doedd Nain
ddim wedi bwriadu eu bwrw nhw drosodd."



"Diolch am wibdaith hyfryd," meddai Nadim.
"Fuon ni erioed yn Llundain o'r blaen."
"Roeddwn i'n hoffi'r daith ar y cwch,"
meddai Onw. "Hyd yn oed os oedd hi'n oer."
"Roeddwn i'n hoffi popeth," meddai Anneena.




“Gartre o’r diwedd,” meddai Nain. “Gallwn sôn am ambell antur wrth Mam, ond nid am bob un…ac nid yr un am dorri pen y Frenhines.”

Argraffwyd yng Nghymru

# Diwrnod yn Llundain

Stori gan
**Roderick Hunt**

Lluniau gan
**Alex Brychta**

Addasiad Cymraeg gan
**Juli Paschalis**

**Pïod Cam 8**
**Y drefn ddarllen a gymeradwyir:**

Yr Herwgipwyr
Antur Lychlynnaidd
Y Peiriant Enfysau
Y Carped Hud
Diwrnod yn Llundain
Antur Fictoraidd

**Pïod Cam 9**
**Y drefn ddarllen a gymeradwyir:**

Yr Ynys Fach Werdd
Castell y Ddrycin
Supermwls
Y Frenhines Sbwriel
Chwilio
Cadw'n Fyw

Coeden Ddarllen Rhydychen
Cam 8



Pïod

© Argraffiad Saesneg, Oxford University Press 1990
Ⓗ Argraffiad Cymraeg, Gwasg Addysgol Drake 2000
Ⓗ Yr addasiad Cymraeg ACCAC

ISBN 0-86174-318-0
ISBN 0 86 174318 0
DRAKE
9 790861 743185